

No.

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, C.M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), E. Goodjohn, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

678 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

679 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A.M. Collins.

680 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi'r gwall teipio ym mharagraff un o gofnod 602. Dylai rhifau cyfeirnod y paragraff nodi 1.1 ac 1.2.

681 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby Ddiddordeb Personol yn Eitem Agenda Rhif 4 – Cyllideb 2023/24 ar gyfer Ymgynghori a Diweddariad Pellach o'r CATC (Cyfeiriad gan y Cabinet: 19 Ionawr, 2023). Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby aelodau teulu lluosog yn derbyn cefnogaeth Teleofal ac un aelod o'r teulu yn derbyn Pecyn Gofal. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod am yr eitem.

No.

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby Ddiddordeb Rhagfarnol yn Eitem Agenda Rhif 5 – Cyngor Bro Morgannwg – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig ar gyfer 2023/2024 (Cyfeirnod gan y Cabinet: 19 Ionawr, 2023). Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby aelodau teulu lluosog yn derbyn cefnogaeth Teleofal ac un aelod o'r teulu yn derbyn Pecyn Gofal. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod am yr eitem.

682 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

I gefnogi'r cyfeiriad gan y Cabinet o 19 Ionawr, 2023, fel y'i ceir yn yr agenda, rhoddodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg gyflwyniad PowerPoint ar Safbwynt Bro Morgannwg ar y Setliad, Pwysau Costau, Bwlch Ariannu, Cynigion am Gynilion a Chynigion ar Gronfeydd Wrth Gefn.

Dechreuodd y Swyddog drwy gynghori y byddai Cyllid Allanol Agregau (CAA) Bro Morgannwg yn cynyddu 8.9% £16.6m a oedd yn welliant o £10m ar y £6.5m 3.5% a ragwelwyd yn y Strategaeth Ariannol ym mis Hydref. Y cynnydd cyffredinol o ran Aseiad Gwario Safonol y Fro (AGS) oedd 6.4% a'r cynnydd yn achos y Gwasanaeth Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol oedd 5.1% a 7.0% yn y drefn honno.

Gyda Chyllid Allanol Cyfun (CAC) o 8.9% a oedd yn gyfanswm o £16.604m a chynnydd o 4.9% yn y Dreth Gyngor sy'n cyfateb i £4.284m, cyfanswm y cynnydd yn y cyllid ar gyfer y Cyngor oedd £20.888m neu 7.66%.

Ychwanegodd y Swyddog fod y Cyngor wedi gweithio fel Uwch Dîm Arwain (UDA) i adolygu ymhellach a mireinio pwysau costau ar draws holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor gan arwain at leihau pwysau costau'n gyffredinol gan £7.437m i £30.67m o £38.107m. Ond roedd y Cyngor yn dal i wynebu pwysau sylweddol fel a ganlyn:

- Cyfanswm y pwysau o ran Cyflog ac Ynni yn £15m ar draws y Cyngor;
- Darparwyr gofal preswyl / cartref ac anallu i gomisiynu gofal sy'n gofyn am fynd i'r afael â thwf sylweddol yn ogystal ag ymrwymiad i fodloni Cyflog Byw Gwirioneddol;
- Pwysau digartrefedd parhaus, hefyd pwysau ynghylch lleoli ffoaduriaid o Wcráin;
- Gwelwyd twf parhaol yn y galw am leoliadau addysg arbennig yn Ysgol Y Deri, y cafodd £1m o gyllid ychwanegol ei gynnwys, hefyd cyllid i gefnogi lleoliadau Prif ffrwd, canolfannau adnoddau, darpariaeth ychwanegol oedd ei hangen fel rhan o'r Ganolfan Dysgu a Llesiant a disgyblion sydd angen cymorth Cymdeithasol ac Emosiynol;
- Trafnidiaeth Ysgol – ychydig iawn o ddarparwyr a phrinder gyrwyr, mwy o angen, a phwysau chwyddiant. £1m o gyllid ychwanegol.

Aeth y Swyddog ymlaen i roi gwybod i'r Pwyllgor am yr holl bwysau ariannol sy'n benodol i'w gylch gwaith. Roedd hynny'n cynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â

lleoliadau allanol Gwasanaethau Plant a darparwyr gofal preswyl a gofal cartref. Roedd cryn bwysau o hyd ar y gyllideb lleoliadau allanol i blant o ystyried cymhlethdodau'r plant sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd a'r lleoliadau cost uchel y mae eu hangen ar rai o'r plant i ddiwallu eu hanghenion.

Yn ddiweddarach aeth y Swyddog i'r afael â hyn ymhellach o fewn y cyflwyniad wrth roi gwybod i'r Pwyllgor am y Cynigion am Gynilion sy'n benodol i gylch gwaith y Pwyllgor, a'r buddsoddiad i arbed mewn perthynas â gofal preswyl agosach i gartref ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

I gloi, dywedodd y Swyddog bod cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor, ac eithrio Ysgolion, yn £114m a rhagamcanwyd y byddai'n gostwng i £83m erbyn 31 Mawrth, 2023. Roedd y Cyngor yn cynnig dull diwygiedig o gadw arian wrth gefn fyddai'n golygu llai o arian wrth gefn, ond wedi'u halinio'n fwy i risgiau allweddol y Cyngor. Roedd cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio'n hanesyddol i liniaru effaith digartrefedd a chostau ynni, wedi'u gostwng dros ddwy flynedd. Wrth edrych ymlaen, byddai'r cronfeydd wrth gefn hefyd yn cael eu defnyddio os oes angen cefnogi'r dull 'camu i mewn' i bwysau ariannol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y pwyntiau canlynol o gyngor:

- Mewn perthynas â Chynigion Cynilo, fel y nodir ym mharagraffau 2.44 – 2.49 o adroddiad y Cabinet, gosodwyd y cynigion yn erbyn buddsoddi mewn modelau darparu amgen yn ogystal â chynhyrchu incwm o fodolau darparu gwasanaethau cyfredol.
- Roedd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflwyno darpariaeth breswyl leol i blant a phobl ifanc ym mis Gorffennaf 2023 a fyddai'n cael effaith sylweddol ar arbedion y llwyddodd i'w wneud, a'r gobaidh oedd y byddai'r arbedion dilynol yn helpu i wrthbwysu'r gwariant blaenorol yn y maes hwn dros gyfnod o amser.
- Roedd cyflwyno gweithiwr cymdeithasol i gefnogi plant oedd yn ceisio lloches ar eu pennau eu hunain, wedi digwydd yn sgil cynllun statudol gan y Swyddfa Gartref a osodwyd ar y Cyngor. Adeg y cyfarfod, roedd y Cyngor yn cefnogi nifer o blant ar eu pen eu hunain a oedd yn ceisio lloches, drwy'r cynllun mandadol. Roedd y tasgau cysylltiedig yn gymhleth, yn gofyn am fwy o arbenigedd a gallu. Er bod y Cyngor wedi elwa o'r arbenigedd oedd wedi datblygu yng Nghaerdydd, roedd y galwadau ar bob Awdurdod yn golygu bod angen ei hadnodd pwrpasol ei hun ar y Fro.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach gan y Pwyllgor, gofynnodd yr Aelodau i sylwadau'r Pwyllgor fel y nodir yn yr argymhelliad isod gael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol cyn i gynigion terfynol gael eu hystyried gan y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023.

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chyllideb Ymgynghori 2023/24 a Diweddariad Pellach o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

(2) BOD sylwadau canlynol y Pwyllgor yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau:

- O ganlyniad i ddiwydrwydd parhaus Swyddogion y Cyngor, mae'r Pwyllgor eisoes yn hyddysg yn y pwysau sylweddol a wynebir gan y sector Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig fel y'i cyflwynwyd sy'n gynnig manwl ynghylch buddsoddi mewn meysydd hanfodol o'r ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr y mae'r Cyngor yn ei wynebu.
- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r holl gynigion ar gyfer buddsoddi a gyflwynir yn yr adroddiad.
- Mae'r pwysau sydd i'w weld yn glir o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu ac yn statudol. Felly, mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i ariannu'r pwysau a nodwyd ac i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu mor effeithiol â phosibl.
- Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Swyddogion Cyllid am adroddiad dealladwy a chyflwyniad ategol defnyddiol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet i sicrhau bod tybiaethau cyllid ac arbedion yn cael eu dilysu a bod cynigion arbedion yn realistig ac yn gyflawnadwy ac nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol.

(2) Sicrhau bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried gan Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, gydag unrhyw argymhellion yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet ar 27 Chwefror, 2023.

683 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU
ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg y cyfeiriad gan y Cabinet o 19 Ionawr, 2023.

Fe wnaethon nhw gynghori bod adroddiad y Cabinet ar Ffioedd a Thaliadau Cyfunol yn cynnwys ffioedd ar draws Gwasanaethau Cymdogaeth, Adnoddau, Lleoedd, Dysgu a Sgiliau a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn adlewyrchu cynnydd o rhwng 5% ac 11% a oedd wedi'i dalgrynnu mewn rhai achosion i'r 5c neu'r 10c agosaf. Roedd rhai ffioedd a thaliadau wedi cynyddu'n uwch na'r ganran hon; wedi aros yr un fath; neu wedi gostwng i adlewyrchu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ac

No.

amlinellwyd cost y ddarpariaeth a'r rhesymeg dros wneud hynny yng nghorff yr adroddiad.

Aeth y Swyddog ymlaen i roi gwybod i'r Aelodau am y taliadau a ffioedd cynyddol yn arbennig mewn perthynas â Hamdden a Gwasanaethau Cymdeithasol fel a ganlyn:

- **Chwaraeon Pêl-droed a rygbi; a Chriced (heb swyddog yn bresennol);** cynigiwyd yn bennaf i gynyddu rhwng 5% a 5.5% a oedd yn is na'r gyfradd bresennol o chwyddiant / mynegai prisiau defnyddwyr MPD oherwydd cost gynyddol cynnal a chadw'r safle a bwrw mlaen â'r gwaith o greu caeau chwaraeon un defnydd.
- **Parc Jenner;** wedi cynyddu 11% i adlewyrchu cyfradd chwyddiant. Roedd rhaid i'r costau a godwyd am lifoleuadau gynyddu rhwng 35% a 100% i adlewyrchu'r cynnydd mawr mewn costau trydan fyddai'n dod yn 2023/24.
- **Gwasanaethau Dydd;** wedi'u codi gan y rhagdybiaeth y byddai chwyddiant cyfunedig yn codi o 11%.
- **Gwasanaethau Teleofal;** Cynigiwyd y byddai'r pris yn debyg i bris y gwasanaethau presennol, gan amrywio rhwng £1.30 a £7.80 yr wythnos. Byddai'r ffioedd arfaethedig yn talu am gostau amcangyfrifedig y gwasanaethau newydd yn ogystal â darparu incwm ychwanegol y gellid wedyn ei ddefnyddio tuag at ddatblygu'r gwasanaethau ymhellach a chyfrannu at y nod adfer y costau llawn. Cynigiwyd bod gosod y gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol yn cael eu darparu am ddim i annog y nifer y trigolion sy'n derbyn y cynnig.

Yn dilyn adroddiad y Swyddog, diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Swyddogion Cyllid am eu hymdrechion i lunio adroddiad clir gan nodi ei bod yn dda gweld bod nifer o'r prisiau arfaethedig yn aros yn is na chwyddiant.

Mewn ymateb i ymholiadau'r Cynghorydd Cowpe mewn perthynas â Chadis Hylendid a Safleoedd Masnachu Awyr Agored, cadarnhaodd y Swyddog fod y materion yn eistedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio a oedd yn cwrdd ar 14 Chwefror, 2023.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig Bro Morgannwg ar gyfer 2023/2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet ar y newidiadau arfaethedig yn y taliadau gwasanaeth ar gyfer swyddogaethau a reolir gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

684 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

I gefnogi'r cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023, fel y'i ceir yn yr agenda, rhoddod y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg gyflwyniad PowerPoint ar Strategaeth Gyfalaf / Setliad Dros Dro, Rhaglen Gyfalaf pum mlynedd, cyllid y Rhaglen Gyfalaf a chynlluniau newydd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Ar 14 Rhagfyr, 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) setliad Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (CCC) dros dro 2023/24 ar gyfer 2023/24. Y swm a ddyfarnwyd i'r Cyngor oedd £6.997m, gan gynnwys grant o £3.545m a £3.452m o fenthyca cefnogol. Roedd hyn yn gynydd o £1.168m o gyllid cyfalaf cyffredinol 2022/23 o £5.829m (Cyllid Cyfalaf Cyffredinol 2021/22 oedd £6.867m). Roedd LIC hefyd rhoi gwybod bod cyfalaf gwerth £20m ar draws Cymru ym mhob blwyddyn yn cael ei ddarparu er mwyn galluogi'r Awdurdodau i ymateb i'r flaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Roedd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth gan LIC mewn perthynas â hyn er mwyn deall beth oedd yn ei olygu i'r Cyngor wrth symud ymlaen.

Yn ôl y Swyddog, gan fod y setliad cyfalaf dros dro gan LIC wedi dod i law, cynigiwyd bod cynlluniau newydd bellach yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Manylwyd ar holl gynlluniau'r Cyngor yn yr atodiad i'r adroddiad ond, o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, cawsant eu rhestru fel a ganlyn: £250k ar gyfer cynlluniau Buddsoddi i Arbed y Gwasanaethau Cymdeithasol a £230k ar gyfer gwaith atgyweirio draeniau a gwaith tanategu ar Gartref Preswyl Porthceri.

Heb unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor, gofynnodd yr Aelodau i sylwadau'r Pwyllgor fel y nodir yn yr argymhelliad isod gael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol cyn i gynigion terfynol gael eu hystyried gan y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023.

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chynigion Drafft y Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2027/28.
- (2) Bod sylwadau canlynol y Pwyllgor yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau:
 - O ganlyniad i ddiwydrwydd parhaus a ddangoswyd gan Swyddogion y Cyngor, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r costau sylweddol yr eir iddynt o ganlyniad i'r gofyniad i leoli plant a phobl ifanc y tu allan i'r ardal.
 - Mae'r adroddiad wedi'i eirio'n 'buddsoddi i arbed' ac felly mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd sy'n cynnwys manylion am fuddsoddi mewn darpariaeth llety arbenigol yn y gymuned er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr y mae'r Cyngor yn ei wynebu.

No.

- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad sy'n dangos dull y Cyngor o roi anghenion plant ac oedolion agored i niwed o flaen y gofyniad i arbed arian.
- Fel Cyngor a Phwyllgor, rydym yn ceisio cynnig yr amddiffyniad gorau y gallwn ei gynnig i unigolion bregus ym Mro Morgannwg o ystyried y cyfyngiadau ariannol sydd ar y Cyngor.
- Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Swyddogion Cyllid am adroddiad dealladwy a chyflwyniad ategol defnyddiol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet i ystyried y cynigion drafft mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i 2027/28.

(2) Sicrhau bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried gan Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweinïol, fel bod y Cabinet yn cael gwybod am sylwadau'r holl Bwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig ar y Rhaglen Gyfalaf.

685 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (CGC) –

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2022/23 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus pandemig COVID-19 a'r Argyfwng Costau Byw.

Roedd pwysau a ddaeth i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau sefydlog ynni, y cynnig dyfarniad cyflog diweddar, chwyddiant cyffredinol yn enwedig mewn meysydd fel trafniadaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio. Roedd chwyddiant a phwysau galw yn cael eu profi ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.

Rhagwelwyd ar hyn o bryd y byddai alldro yn y gwasanaeth gyda thanwariant o £1.3m a oedd yn adlewyrchu gweddill o £1.8m yn y Gwasanaethau Oedolion, gan wrthbwysu amrywiannau niweidiol mewn Rheoli Adnoddau a Diogelu a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Roedd y sefyllfa hon yn adlewyrchu addasiad cyfrifo untro yn y ffordd y dangoswyd incwm gofal cymdeithasol a ohirwyd yn y cyfrifon yn 2022/23 i adlewyrchu argymhellion Archwilio Cymru. O dan y dull gweithredu diwygiedig hwn byddai incwm yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon ar y pwynt y tynnwyd arno, yn hytrach na phan oedd modd ei gasglu. Yn dilyn yr addasiad hwn rhagamcanwyd ar hyn o bryd y byddai trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, yr amcangyfrifwyd ei fod oddeutu £1.3m ond a allai gynyddu pe bai grant ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaeth.

O fewn Gwasanaethau Hamdden roedd amrywiant andwyol o tua £500k yn cael ei dynnu o daliadau ychwanegol oedd yn dal i gael eu gwneud i bartner canolfan hamdden y Cyngor tra'r oedden nhw'n gwella o effaith Covid 19. Roedd y

No.

gefnogaeth hon i fod i ddod i ben o 31 Rhagfyr, 2022 a byddai'n cael ei ariannu drwy drosglwyddiad o Gronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at ddatganiad y Swyddog ar ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm a gofynnodd am effaith hyn ar Brosiect Sero'r Cyngor. Mewn ymateb, cynghorodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg nad oedd cydberthyniad uniongyrchol â Phrosiect Sero y Cyngor ar hyn o bryd.

I gloi, diolchodd yr Is-gadeirydd i Swyddogion Cyllid am y gwaith aruthrol a wnaed a arweiniodd at adroddiad clir a defnyddiol a roddwyd gerbron y Pwyllgor.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.
- (2) Y DYLID nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwysu'r gorwariant a ragwelir yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) BOD y Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23.
- (2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.
- (3) Addasu'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 ar gyfer symudiadau rhwng Cyfarwyddiaethau.

686 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEDI 2022 (CGC) –

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd, 2022 a bod y manylion yn ôl cynllun wedi eu dangos yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth gan y Cyngor ar 7 Mawrth i 30 Tachwedd 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Ychwanegodd y Swyddog bod cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ail-drefnu neu ail-dendro cynlluniau, gan arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion y prosiect

No.

hefyd yn sôn bod oedi hir ar gyflenwad deunyddiau a phrinder sgiliau mewn rhai meysydd.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen gymeradwy bresennol o £90.413m ond roedd yn annhebygol o gael ei gyflwyno'n llawn a gofynnwyd am lithriant o £2.369m. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr prosiectau a noddwyr a byddai llithriant pellach yn cael ei gofnodi mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, diolchodd yr Is-gadeirydd i Swyddogion Cyllid am eu hadroddiad clir a defnyddiol gan nodi bod y mwyafrif helaeth o'r llithriant disgwylidig mewn perthynas â Chyfarwyddiaethau eraill y Cyngor ac felly o dan gyloch gwaith Pwyllgorau Craffu eraill.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) NODI'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r Flwyddyn i'r Dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y'u nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf.
- (2) Hysbysu'r Pwyllgor am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.
- (3) Hysbysu'r Pwyllgor am ddefnyddio Pwerau Argyfwng.
- (4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

687 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER A RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU 2022/2023 (PW) –

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad, a oedd â'r nod o roi'r diweddaraf i'r Aelodau am argymhellion hanesyddol a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ac Amserlen ddiweddaraf y Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/23.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar y camau gweithredu ar yr argymhellion a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad yn ogystal â chymeradwyo Blaenraglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor i'w uwchlwytho i'r wefan gyhoeddus fel y'i cynhwysir yn Atodiad C.

Mewn perthynas â Blaenraglen Waith y Pwyllgor a'r ymholiad unigol a godwyd gan y Cyngorydd Lloyd-Selby, cynghorodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod y 'materion eraill' a oedd yn aros i gael eu cynnwys ar dudalennau 27 a 28 yn ymwneud â dau adroddiad uniongyrchol a phedwar cyflwyniad hanesyddol a dderbyniwyd gan gydweithwyr y GIG.

Byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn parhau i wahodd cydweithwyr y GIG i gyflwyno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn amodol ar eu hargaeledd a oedd wedi bod yn gyfyngedig ers effeithiau'r pandemig cenedlaethol. Fe wnaeth y Swyddog hefyd atgoffa'r Pwyllgor o adroddiad arfaethedig y Cabinet mewn perthynas â Hyb Lles Penarth, fel y cadarnhawyd gan swyddogion yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag un o'r cyflwyniadau arfaethedig.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod un o'r adroddiadau arfaethedig mewn perthynas â'r Strategaeth Gofalwyr bellach wedi'i amserlennu ar gyfer cyfarfod Pwyllgor mis Mawrth ac felly awgrymodd nad oedd angen ei gynnwys ar dudalen 27 mwyach.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) CYMERADWYO'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2022/23, sydd ynghlwm yn Atodiad C, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar dynnu'r eitem ganlynol oddi ar dudalen 27:
 - Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol – Strategaeth Gofalwyr (Cymorth i Ofalwyr ym Mro Morgannwg).

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd ac i adlewyrchu bod adroddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Strategaeth Gofalwyr bellach wedi'i amserlennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023.